Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llangwyryfon

**Llangwyryfon**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 4HA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Llangwyryfon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | YSGOL GYMUNEDOL LLANGWYRYFON |
| Awdurdod lleol | Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 42 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 34 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | * |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 9.5% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag angenion addysg arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 35.3% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 52.9% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2012 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 15/10/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 16/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Llangwyryfon yn ysgol hapus a chartrefol ble mae disgyblion yn dangos lefel uchel o barch ac ymddygiad. Mae’r staff yn dangos gofal arbennig am eu disgyblion. Maent yn gweithio’n galed i’w herio i weithio hyd eithaf eu gallu o oedran cynnar. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau sylfaenol yn gryf ar eu taith drwy’r ysgol. Maent yn datblygu’n fathemategwyr hyderus ac yn cael gafael gadarn ar y Gymraeg a’r Saesneg, er bod angen darparu cyfleoedd i ddisgyblion i wneud dewisiadau yn fwy annibynnol ar adegau. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn cyflawni’n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn yr ysgol.

Mae’r staff yn gofalu’n arbennig o dda am iechyd corfforol a lles y disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd eang i ddisgyblion drafod eu teimladau ac i gael cymorth academaidd neu emosiynol ychwanegol, pe bai angen. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder. Mae’r staff yn darparu cwricwlwm cyffrous sy’n apelio’n fawr at ddiddordebau’r disgyblion. Maent yn defnyddio’r dosbarthiadau a’r ardal ehangach i ysgogi’r dysgwyr, er bod angen sicrhau defnydd mwy effeithiol o'r ardal allanol yn y blynyddoedd ifancaf. Caiff y disgyblion brofiadau sy’n eu datblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus am eu hardal a’u hetifeddiaeth ac yn falch o’u Cymreictod a’u cenedl.

Mae’r holl staff yn creu tîm effeithiol sy’n gweithio er budd eu disgyblion drwy’r amser. Maent yn adnabod eu cryfderau ac yn ymwybodol o beth sydd angen ei wella. Mae’r pennaeth yn ystyried barn rhieni a disgyblion wrth wneud penderfyniadau. Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol ac yn cadw llygad barcud ar y cyllid er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## Argymhellion

A1 Sicrhau defnydd mwy effeithiol o'r ardal allanol yn y blynyddoedd ifancaf

A2 Darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'u dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, heblaw yn y Gymraeg ble mae tua hanner y disgyblion â medrau islaw'r lefel ddisgwyliedig. Mae bron bob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau gwrando bron bob disgybl ym mlynyddoedd ifancaf yr ysgol yn dda. Maent yn gwrando ar eu cymheiriaid ac ar oedolion yn ofalus gan ymateb yn briodol iddynt. Mae'r disgyblion ifancaf sydd â'r Gymraeg yn newydd iddynt yn dysgu'r iaith yn gyflym. Maent yn dod i ddeall ystod eang o eiriau mewn amser byr, gan fagu hyder trwy sgwrsio gydag oedolion a'u cyfoedion. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg gan siarad am eu gwaith a'u profiadau'n aeddfed. Er enghraifft, maent yn cyd-drafod yn effeithiol er mwyn pwyso ffrwythau gwahanol mewn clorian a darganfod y trymaf a'r ysgafnaf. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau llafar yn llwyddiannus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth. Mae bron bob disgybl yn y blynyddoedd hŷn yn ymateb yn dda i gwestiynau ac yn gwrando'n astud. Maent yn mynegi barn yn aeddfed, er enghraifft wrth drafod penderfyniadau moesol mewn gwasanaeth boreol. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd o fewn eu dosbarthiadau ac yn ystod amseroedd egwyl.

Mae medrau darllen bron bob disgybl yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ifancaf yn adnabod llythrennau a synau o oedran ifanc, ac yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus i ddarllen llyfrau stori ac i drafod y cynnwys yn wybodus. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Mae nhw'n talu sylw effeithiol i atalnodi ac yn amrywio goslef y llais er mwyn dangos dealltwriaeth ac ennyn diddordeb y gwrandäwr. Maent yn defnyddio eu uwch fedrau darllen yn effeithiol er mwyn cywain gwybodaeth yn sydyn ac yn effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y disgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion ifancaf yr ysgol yn creu marciau yn llwyddiannus mewn amryw o gyd-destunau a chyfryngau. Er enghraifft, maent yn defnyddio sialc ar iard yr ysgol a phaent o fewn y dosbarth i ymarfer gwneud siapiau sy'n cyfleu ysgrifen. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft mewn dyddiadur am y penwythnos neu gyfarwyddiadau i wneud bara. Mae bron pob un o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn ysgrifennu'n fedrus mewn ffurfiau amrywiol gan ddangos dealltwriaeth aeddfed o baragraffu ac atalnodi, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu llythyr anffurfiol at ffrind, neu erthygl papur newydd am ddigwyddiad yn ystod Rhyfel y Sais Bach.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ifancaf yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn adnabod rhifau hyd at 100 yn hyderus ac yn

arddangos dealltwriaeth dda o fondiau rhif, gyda rhai yn medru cyfri ymhellach na chant yn llwyddiannus. Maent yn dysgu i drin a thrafod offer mathemategol yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio cloriannau i bwyso neu glociau i ddatrys problemau am amser. Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhif cadarn. Maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth fathemategol yn llwyddiannus mewn cyd-destunau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth amcangyfrif a mesur faint o hylif sydd ei angen i lenwi stên laeth, a thrawsnewid peintiau a galwyni i litrau.

Yn y dosbarth ifancaf, mae bron pob disgybl yn datblygu ystod werthfawr o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus a chyson. Maent yn arbed eu gwaith yn llwyddiannus ac yn medru ei lwytho heb gymorth. Mae'r rhan fwyaf yn rhaglennu roced ar sgrin i deithio o gwmpas y planedau. Yn y blynyddoedd hŷn, mae disgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu medrau blaenorol. Maent yn defnyddio adnoddau parod Hwb yn hyderus i gyfoethogi a hwyluso eu dysgu ac i arddangos eu gwaith mewn amryw ddulliau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Maent yn creu animeiddiadau o safon uchel, er enghraifft er mwyn dangos cylchred bywyd planhigyn.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob disgybl yn hynod gwrtais ac yn arddangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned ofalgar yr ysgol. Rhoddir ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfoedion, yn enwedig y disgyblion hŷn wrth ofalu am y disgyblion iau. Mae ymddygiad disgyblion yn arbennig o dda o fewn gwersi, yn ystod cyfnodau egwyl a phan fyddant yn gweithio'n annibynnol. Maent yn chwarae'n hapus ac yn fodlon yn ystod adegau egwyl. Mae'r disgyblion yn groesawgar i ymwelwyr ac yn trafod agweddau o fywyd yr ysgol yn hyderus gyda nhw. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn mwynhau bod yn rhan o'i chymuned. Gwerthfawrogant gyfleoedd i ymweld â'r ardal leol yn rheolaidd ac maent yn mwynhau adegau o ymlacio corfforol a myfyrio.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Maent yn trafod pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau a pheryglon datgelu gwybodaeth bersonol yn aeddfed. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd yfed a bwyta'n iach. Maent yn angerddol am ddod â ffrwyth i'r ysgol yn hytrach na chreision neu siocled. Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'r meddwl yn iach yn ogystal â'r corff. Maent yn defnyddio eu llyfrau lles a'r 'bocs becso' yn effeithiol gan wybod y bydd y staff yn delio ag unrhyw bryder yn amserol ac yn sensitif. Mae gan ddisgyblion hŷn yr ysgol wybodaeth aeddfed am iechyd meddwl a'i bwysigrwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr brwd sy'n ymgymryd â thasgau'r dosbarth yn eiddgar. Maent yn parchu cyfraniadau eraill ac yn ymateb yn bwrpasol iddynt. Mae eu hagwedd tuag eu dysgu eu hunain yn bositif ac maent yn dyfalbarhau yn gyson. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, mewn grwpiau, mewn parau neu drwy gynorthwyo ei gilydd pan fo angen. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob un ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n

bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau ac maent yn datblygu medrau arwain yn briodol. Mae cyfyngiadau'r pandemig wedi amharu ar allu'r cynghorau i gyfarfod ers dechrau'r flwyddyn, ond yn ddiweddar mae aelodau'r 'bydis iard' a'r 'archwilwyr amgylchedd' wedi ymgymryd â'u rolau yn frwdfrydig i effeithio'n bositif ar amgylchedd a bywyd yr ysgol.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan staff berthynas gynnes iawn â'i disgyblion. Maent yn eu trin â charedigrwydd ac ystyriaeth ac mae hyn yn creu amgylchedd gynhwysol sy'n cymell y disgyblion i ddysgu'n effeithiol. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb bron pob un disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau gwerthfawr sy' adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol. Mae'r staff yn rhoi cyfarwyddiadau clir sy'n galluogi bron bob disgybl i ymgymryd â thasgau yn hyderus. Maent yn defnyddio technegau amrywiol yn effeithiol yn ystod y sesiynau hyn er mwyn sicrhau bod bron pob disgybl yn deall ac yn datblygu eu medrau. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar yn bwrpasol, a lle mae'r adborth ysgrifenedig ar ei orau, yn rhoi dealltwriaeth glir i ddisgyblion o'u cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion yn datblygu'n addas.

Llwydda'r staff i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr lle gall bron bob disgybl ddysgu'n gynhyrchiol. Mae'r holl staff yn rheoli ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol yn feistrolgar a llwyddant i drin pob disgybl yn gyfartal ac â pharch. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth i arwain y dysgu'n llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a, gan amlaf, maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol. Mae cydweithio pwrpasol rhwng aelodau staff yn darparu cefnogaeth dda i alluogi disgyblion i gwblhau eu tasgau ac elwa ohonynt yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd addas rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Serch hynny, mae tueddiad i athrawon arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Cyfyng yw'r profiadau sy'n ymestyn ac yn atgyfnerthu'r dysgu yn yr ardal allanol i'r disgyblion ifancaf.

Drwy hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol, mae'r staff yn sicrhau ethos Cymreig cryf iawn. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at eu medrau llafar coeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae'r staff yn

darparu cwricwlwm diddorol sy'n datblygu medrau disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn mwynhau datrys sialensiau sy'n apelio at eu diddordebau, fel darganfod perimedr ac arwynebeddau caeau ffermydd gwahanol.

Mae athrawon wedi dechrau addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm i Gymru trwy gynnig cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r hyn y dymunant ei ddysgu, er enghraifft wrth ymateb i gwestiynau'r disgyblion ifancaf pan fyddant yn cynllunio eu thema ar fwyd. Mae athrawon yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr i'r disgyblion sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus gan fodloni anghenion bron pob un ohonynt yn fedrus. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am yr ardal leol ac yn ehangach. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith disgyblion wrth astudio hanes terfysgoedd Merched Beca a Rhyfel y Sais Bach yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu dealltwriaeth o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cwrteisi, parch, ac ymroddiad disgyblion yn llwyddiannus iawn. Llwyddant i feithrin ethos teuluol a gofalgar sy'n creu cymuned glòs lle mae disgyblion a staff yn gofalu'n ystyriol am ei gilydd. Maent yn cydweithio'n effeithiol i greu cymuned hapus mewn amgylchedd dysgu diogel. Mae hyn yn nodwedd arbennig. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen strwythuredig i hyrwyddo lles pob disgybl yn gelfydd ac mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o'r angen i warchod eu hunain ac eraill yn feddyliol a chorfforol. Datblygwyd deunydd gan yr ysgol er mwyn trafod themâu fel 'Daw'r gwanwyn er gwaetha'r gaeaf'. Golyga hyn fod gan ddisgyblion gyfleoedd i ddatblygu medrau rhesymu a thrafod goblygiadau poen meddwl yn ystod cyfnod tywyll y gaeaf. Creodd disgyblion hŷn yr ysgol bosteri arbennig i annog oedolion i fynegi eu teimladau gan bwysleisio bod siarad yn bwysig, i ymateb i drasiedi yng nghefn gwlad. Mae'r gweithgaredd hon yn paratoi'r disgyblion yn feistrolgar ar gyfer medrau bywyd yn y dyfodol. Mae gan yr ysgol drefniadau perthnasol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach a heini.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eithriadol o gryf. Mae staff yn nodi, ac yn mynd i'r afael yn effeithiol, ag anghenion dysgu penodol disgyblion yn gynnar. Mae'r disgyblion yn elwa ar gymorth o ansawdd uchel gan staff medrus. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio ystod o raglenni ymyrraeth llwyddiannus i helpu disgyblion i wella eu medrau cymdeithasol, emosiynol, a'u llythrennedd a rhifedd. Mae ganddynt gynlluniau addysg unigol clir a mesuradwy. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau penodol sy'n cynnig strategaethau llwyddiannus ar gyfer eu dysgu a sut i oresgyn anawsterau. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd ar y cyd rhwng yr athrawon, y disgyblion, a'u rhieni. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol i gynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu. O ganlyniad, mae pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u cyraeddiadau blaenorol. Yn ystod y pandemig, rhannodd y staff eu strategaeth ymyrraeth dysgu o bell gydag ysgolion eraill ledled yr awdurdod lleol fel enghraifft o arfer dda.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion leisio barn ac i gyfrannu at eu dysgu ac at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau ac i ystyried safbwyntiau eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cael cyfle i fyfyrio ac i feddwl am faterion cyfoes trwy'r gwasanaethau dyddiol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn atgyfnerthu gwerthoedd cymunedol y disgyblion trwy drefnu iddynt gymryd rhan yn yr eisteddfod leol a chasglu arian at achosion da fel Apêl Wcrain. Serch hyn, nid yw'r cynlluniau ar gyfer addysgu disgyblion am gymunedau aml-ddiwylliannol a pherthnasoedd amrywiol yn cael eu cyflwyno'n ddigon bwriadus bob tro.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar gynnig pob cyfle posibl i baratoi'r disgyblion ar gyfer bywyd tu allan i'r ysgol. Mae hyn yn cael ei gyflawni mewn awyrgylch gynhwysol a chartrefol ble maent yn meithrin egwyddorion o degwch a pharch a chariad tuag eu hardal leol a'u hiaith. Mae ymagwedd pob aelod o staff yn canolbwyntio ar fodloni anghenion pob disgybl. Mae'r staff wedi ffurfio tîm cryf ac effeithiol sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Mae arweinyddiaeth dawel ac effeithiol y pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel sy'n cael eu hadnabod gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r staff yn adnabod eu hysgol yn dda. Maent yn cyfathrebu'n  effeithiol â'i gilydd ac mae ganddynt ffocws parhaus ac effeithiol ar gynnal a chodi safonau cyflawniad disgyblion, ac ar sicrhau lefel uchel o les ar eu cyfer.

Mae prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod gan y staff ddarlun clir o'i pherfformiad. Maent yn dadansoddi ac yn ystyried ystod eang o dystiolaeth fel arsylwadau gwersi, asesiadau mewnol, craffu ar waith disgyblion, adroddiadau'r awdurdod lleol a holi barn disgyblion. Mae'r athrawon wedi adnabod blaenoriaethau perthnasol i'w datblygu fel canlyniad i'r gwaith hwn. Mae'r ffocws yn y cynllun gwella yn cynnwys y blaenoriaethau hyn a blaenoriaethau cenedlaethol pwysig. Mae'r cynllun yn gosod camau gweithredu clir gyda chyfrifoldebau, anghenion datblygiad proffesiynol a meini prawf llwyddiant perthnasol. Mae'r cynllun yn cael ei werthuso'n dymhorol er mwyn gwirio bod yr ysgol yn gwireddu'r bwriadau yn amserol ac effeithiol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn ei hadnabod yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r gefnogaeth a ddarparodd yr ysgol yn ystod y cyfnodau clo. Er nad yw gweithgareddau arferol y llywodraethwyr o ymweld â darpariaeth yr ysgol wedi ailgydio ers y pandemig, maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol am sefyllfa'r ysgol drwy adroddiadau'r pennaeth yn ystod cyfarfodydd rhithiol. Maent yn parhau i herio'r ysgol yn effeithiol, er enghraifft drwy drefniadau rheoli perfformiad y pennaeth. Maent yn cydweithio âa staff a'r disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth i reoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol drwy gwrdd yn rheolaidd â swyddog cyllid yr ysgol a chadw golwg fanwl ar y gwariant. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r grantiau amrywiol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i sicrhau lefel staffio priodol, adnoddau o ansawdd da a hyfforddiant pwrpasol, er enghraifft er mwyn cynnig cymorth emosiynol i ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i reoli perfformiad athrawon a chynorthwywyr sy’n seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol unigol a blaenoriaethau’r ysgol. Mae’r staff wedi manteisio ar ddulliau rhithiol i fynychu hyfforddiant proffesiynol yn ystod y cyfnodau clo. Maent yn clustnodi cyrsiau a hyfforddiant addas drwy drafodaethau cynhyrchiol gyda’r pennaeth. Er enghraifft, mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol wedi cwblhau cwrs rheolaeth ganol ac mae wrthi’n cwblhau cwrs meistr mewn anghenion arbennig. Golyga hyn y bydd gan yr ysgol y staff i gynorthwyo’r pennaeth yn fwy effeithlon a pharatoi’n bwrpasol ar gyfer dyfodiad y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol.

Mae yna berthynas gryf yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni. Maent yn gwerthfawrogi ymdrechion staff yr ysgol dros y cyfnod clo i addysgu eu plant a bod mor wyliadwrus am eu lles. Mae’r cyfarfodydd rhieni diweddar wedi atgyfnerthu’r cyswllt cryf rhyngddynt.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/07/2022